



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

Diweddariad misol yw hwn i bartneriaid a rhanddeiliaid ar ddatblygiad Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan ei Brif Weithredwr, Alex Howells.

Bydd y sefydliad newydd, a fydd yn awdurdod iechyd arbennig a'r unfed aelod ar ddeg o deulu GIG Cymru, yn cael ei sefydlu'n ffurfiol ar 1 Hydref 2018.

## Pwy ydym ni?

*Awdurdod Iechyd Arbennig yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a sefydlwyd o fewn GIG Cymru i integreiddio a meithrin arbenigedd cynllunio, datblygu, llunio, a chefnogi'r gweithlu iechyd. Yn weithredol o ddydd Llun, 1 Hydref, byddwn yn dod â Deoniaeth Cymru, Canolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru, a'r Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu at ei gilydd. Bydd ein swyddogaethau'n cynnwys: cynllunio'r gweithlu yn strategol, deallusrwydd y gweithlu, addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, gyrfaoedd ac ehangu mynediad.*

Ymhen llai na deufis, bydd AaGIC yn cael ei lansio'n ffurfiol, a byddwn yn "mynd yn fyw" fel yr aelod diweddaraf o deulu GIG Cymru. Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflwyno'r sefydliad newydd erbyn dydd Llun, 1 Hydref, ond mae llawer o dasgau ymarferol eto i'w cwblhau. Yn ogystal, wrth ddechrau ar y camau olaf, rydym yn canolbwyntio'n fwy ar yr hyn y byddwn yn ei wneud pan fyddwn yn gwbl weithredol.

Ers y bwletin diwethaf, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi bod Dr C.D.V. Jones wedi'i benodi'n Gadeirydd parhaol, ar ôl cyflawni'r rôl dros dro ers mis Hydref diwethaf. Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â Dr Jones, a daw â chyfoeth o brofiad a brwdfrydedd i'r sefydliad newydd.

Bydd aelodau penodedig newydd y Tîm Gweithredol gyda ni erbyn dechrau mis Hydref. Mae Stephen Griffiths, y Cyfarwyddwr Nyrsio, eisoes wedi dechrau ar ei swydd a bydd Danielle Neale, ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol, yn dechrau gyda ni ddydd Llun, 27 Awst, gyda'r Athro Push Mangat, y Cyfarwyddwr Meddygol, yn ymuno â ni yn ddiweddarach ym mis Medi. Bydd Dafydd Bebb, Ysgrifennydd newydd y Bwrdd, yn cychwyn ddiwedd mis Awst.

Rydym hefyd wedi cwblhau ein strwythurau sefydliadol, a byddwn yn llenwi'r swyddi gwag dros y misoedd nesaf. Ymhlith y swyddi cyntaf i'w hysbysebu bydd Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid. Byddwn hefyd yn chwilio am Reolwr y Gymraeg, a Rheolwr Cymorth Gweithredol. Byddwn yn hysbysebu'r swyddi allweddol eraill dros wyliau'r haf, felly cadwch eich llygaid ar agor os ydych yn chwilio am gyfle i ddatblygu neu her newydd.

Er bod gwyliau'r haf wedi dechrau, mae ein rhaglen ymgysylltu â staff a phartneriaid yn mynd rhagddi er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddylanwadu ar y broses o sefydlu a siapio'r corff newydd. Cawsom sesiwn rhanddeiliaid gynhyrchiol iawn gydag oddeutu 50 o bobl ddydd Mawrth, 31 Gorffennaf yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, a bu'n gymorth i lywio ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol. Byddwn yn cynnwys y fersiynau terfynol yn y bwletin nesaf, gan eu bod yn darparu sylfaen bwysig i lansio'r sefydliad newydd, a'n blaenoriaethau dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf.

Er gwaethaf y bwletinau hyn, ein digwyddiadau i randdeiliaid, a'n cyfarfodydd cychwynol gydag ystod eang o bartneriaid, rydym yn ymwybodol bod llawer o waith o'n blaenau i godi ymwybyddiaeth o'r sefydliad newydd, ac i egluro'r hyn y byddwn yn ei wneud. Rydym yn dibynnu'n fawr ar eich help i wneud hyn, ac felly byddem yn ddiolchgar iawn pe gallwch ddosbarthu'r bwletinau hyn yn ehangach i'n cynorthwyo i ledaenu'r gair.

Y digwyddiad allweddol nesaf fydd ein lansiad swyddogol, a gynhelir yn Stadiwm Dinas Caerdydd ddydd Llun, 24 Medi, yng nghwmni Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, neu unrhyw ddiwyddiad AaGIC, anfonwch e-bost i [heiw@gov.wales](mailto:heiw@gov.wales).

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus,

*Alex Howells*

*Prif Weithredwr Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)*



Cymraeg



English



Cymraeg



English

[Hawlfraint y Llywodraeth Cymru / GIG Cymru](#)